Atodiad 3

Adran 9

9.9 Y Pwyllgor Apelau Prif Swyddogion

9.9.1 Bydd y Cyngor yn penodi Pwyllgor Apelau Cyflogaeth Prif Swyddogion i gyflawni'r swyddogaethau a ddisgrifir yn Adran 13 y Cyfansoddiad hwn.

9.9.2 Bydd y Pwyllgor yn cynnwys 7 Aelod sy'n Gynghorwyr ac o leiaf 1 yn aelod Cabinet ond bydd y mwyafrif ohonynt yn aelodau nad ydynt yn Aelodau o'r Cabinet nac yn aelodau Pwyllgor Penodi Prif Swyddogion.

Adran 13 Rhan 1

Pwyllgor Apelau Prif Swyddogion

- Ceir manylion am gyfansoddiad y pwyllgor hwn yn Adran 9 y Cyfansoddiad.

- Mae'r tabl isod yn rhestru'r swyddogaethau penodol sydd wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor. Yn y drydedd golofn nodir os yw'r swyddogaeth wedi ei dirprwyo ymlaen i Brif Swyddog. Ceir manylion pellach am hawliau'r Prif Swyddog, gan gynnwys unrhyw gyfyngiad ar ei hawl i weithredu, yn y Cynllun Dirprwyo i Swyddogion (Atodiad 3 i Adran 13 o'r Cyfansoddiad).

Swyddogaeth	**Darpariaeth mewn Deddf neu Offeryn Statudol**	***Dirprwyo -*** *(yn amodol ar unrhyw gyfyngiadau yn y Cynllun Dirprwyo* i *Swyddogion)*
Penderfynu ar apeliadau gan Brif Swyddogion fel y diffinnir yn Adran 11 o'r Cyfansoddiad yn erbyn camau disgyblaeth a gymerwyd yn eu herbyn	Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2006	